

2025 Rhif (Cy.)

2025 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Talerddig i Gomins-coch, Powys)
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)
2025

The A470 Trunk Road (Talerddig
to Commins Coch, Powys)
(Temporary Prohibition of
Vehicles) Order 2025

Gwnaed 4 Mehefin 2025

Made 4 June 2025

Yn dod i rym 12 Mehefin 2025

Coming into force 12 June 2025

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Talerddig i Gomins-coch, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Mehefin 2025.

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Talerddig to Commins Coch, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2025 and this Order comes into force on 12 June 2025.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 19:00 o’r gloch ar 12 Mehefin 2025 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A470 Llundain i Gaergybi.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.
4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy’n 14’ 6” neu dros hynny ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwys

5. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para’r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 4 Mehefin 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1

- Y darn o’r gefnffordd yn Nhalerddig, Powys sy’n ymestyn o bwynt sydd oddeutu 100 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt pont reilffordd Pont Bell hyd at ei chyffordd ag ystad Bwlch yr Iaen yn Nolfach, Powys.
- Y darn o’r gefnffordd yn Llanbrynmair, Powys sy’n ymestyn o’i chyffordd â chanolbwynt y ffordd sirol y tu allan i’r eiddo o’r enw Llysun hyd at yr eiddo o’r enw Newgate (i’r gorllewin o bont Tripgate).

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A470 Caersws to Machynlleth trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 12 June 2025 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.
4. No person may, during the works period, drive any vehicle of or over 14’ 6” on the lengths of the trunk road specified in Schedules 1 and 2 to this Order.

Application

5. The prohibitions in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 4 June 2025

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

SCHEDULE 1

- The length of the trunk road at Talerddig, Powys that extends from a point approximately 100 metres east of the centre-point of Pont Bell railway bridge to its junction with Bwlch yr Iaen estate at Dolfach, Powys.
- The length of the trunk road at Llanbrynmair, Powys that extends from its junction with the centre-point of the county road outside the property called Llysun to the property called Newgate (west of Tripgate bridge).

Y darn o'r gefnffordd yng Nghomins-coch, Powys sy'n ymestyn o bwynt 476 o fetrau i'r dwyrain o'r arwydd terfyn cyflymder 20 mya parhaol hyd at ganolbwynt y gilfan a leolir oddeutu 1.35 cilometr i'r gorllewin o'r arwydd terfyn cyflymder 20 mya parhaol hwnnw.

ATODLEN 2

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Bwlch yr Iaen, Dolfach hyd at bont reilffordd Pontdolgoch.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'r eiddo o'r enw Newgate (i'r gorllewin o bont Tripgate), Llanbryn-mair hyd at bont reilffordd Pontdolgoch.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y gilfan a leolir oddeutu 1.35 cilometr i'r gorllewin o'r arwydd terfyn cyflymder 20 mya parhaol yng Nghomins-coch hyd at bont reilffordd Pontdolgoch.

The length of the trunk road at Commins Coch, Powys that extends from a point 476 metres east of the permanent 20 mph speed limit sign to the centre-point of the lay-by located approximately 1.35 kilometres west of that permanent 20 mph speed limit sign.

SCHEDULE 2

The length of the trunk road that extends from its junction with Bwlch yr Iaen, Dolfach to Pontdolgoch railway bridge.

The length of the trunk road that extends from the property called Newgate (west of Tripgate bridge), Llanbryn-mair to Pontdolgoch railway bridge.

The length of the trunk road that extends from the centre-point of the lay-by located approximately 1.35 kilometres west of the permanent 20 mph speed limit sign at Commins Coch to Pontdolgoch railway bridge.